***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ATODLEN 2

TRAFODIADAU CYN-GWBLHAU

**RHAN 5**

RHYDDHADAU

*Rhyddhad i'r prynwr gwreiddiol: iswerthiannau cymwys*

19 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) os yw'r trafodiad cyn-gwblhau yn is-werthiant cymwys (gweler is-baragraff (6)),

(b) pe bai'r prynwr gwreiddiol, oni bai am y paragraff hwn, yn atebol am dalu treth mewn cysylltiad â'r trafodiad tir y rhoddir effaith iddo drwy gwblhau'r contract gwreiddiol neu y caiff ei drin fel bod effaith wedi ei rhoi iddo drwy gyflawni'r contract gwreiddiol yn sylweddol,

(c) os cyflawnir yr is-werthiant cymwys ar yr un pryd â chyflawni'r contract gwreiddiol, ac mewn cysylltiad â hynny, a

(d) os hawlir rhyddhad mewn cysylltiad â'r trafodiad tir a grybwyllir ym mharagraff (b).

(2) Os testun yr is-werthiant cymwys yw holl destun y contract gwreiddiol, mae'r prynwr gwreiddiol wedi ei ryddhau rhag treth mewn cysylltiad â'r trafodiad tir a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b).

(3) Os yw testun yr is-werthiant cymwys yn rhan o destun y contract gwreiddiol, cymerir mai swm y gydnabyddiaeth ar gyfer y trafodiad tir a grybwyllir yn is-baragraff (1)(b) yw—

$$CG - IC$$

Ffigwr 2

pan fo—

CG yw'r swm y byddai'r gydnabyddiaeth oni bai am yr is-baragraff hwn, a

IC yw hynny o CG sydd i'w briodoli i destun yr is-werthiant cymwys,

a chaniateir gostwng CG fwy nag unwaith os oes mwy nag un is-werthiant cymwys.

(4) Ond nid oes unrhyw ryddhad ar gael o dan y paragraff hwn—

(a) os oedd y contract gwreiddiol wedi ei gyflawni'n sylweddol pan ymrwymwyd i'r is-werthiant cymwys, neu

(b) os yw'r trafodiad y rhoddir effaith iddo, neu y caiff ei drin fel bod effaith wedi ei rhoi iddo drwy gyflawni'r is-werthiant cymwys wedi ei ryddhau rhag treth yn rhinwedd Atodlen 10 (rhyddhad cyllid eiddo arall).

(5) At ddibenion y paragraff hwn, cymerir bod contract ar gyfer trafodiad tir wedi "ei gyflawni" pan fydd wedi ei gyflawni'n sylweddol neu wedi ei gwblhau (pa un bynnag sydd gynharaf).

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(6) Mae trafodiad cyn-gwblhau yn “is-werthiant cymwys” os yw’n gontract y mae’r prynwr gwreiddiol yn contractio oddi tano i werthu holl destun neu ran o destun y contract gwreiddiol i’r trosglwyddai.

(7) Os yw trafodiad yn is-werthiant cymwys mewn perthynas â mwy nag un contract fel a grybwyllir ym mharagraff 2(1)(a), mae’r paragraff hwn yn gymwys ar wahân mewn perthynas â phob contract gwreiddiol o’r fath at ddiben pennu pa ryddhad, os o gwbl, a all fod ar gael mewn cysylltiad â’r trafodiad tir o dan sylw.